

Rhif: WG16466



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Cynigion ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: **10 Medi 2012**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **19 Hydref 2012**

Cynigion ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru

- Trosolwg** Yn y ddogfen ymgynghori hon ceir mwy o fanylion am swyddogaethau a gweithrediad corff cofrestru. Mae hefyd yn ceisio sylwadau ar fanylion y gweithrediadau, y rolau a'r swyddogaethau er mwyn paratoi ar gyfer rheoliadau yn y Bil Addysg (Cymru) sydd ar ddod.
- Sut i ymateb** Dylid e-bostio/postio ffurflenni ymateb i'r cyfeiriad isod, i gyrraedd erbyn **19 Hydref 2012** fan bellaf (nodwch 'Ymgynghoriad ar Gofrestru' yn y blwch pwnc).
- Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.
Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Sefydlwyd y gofynion cofrestru cyfredol ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/30/contents a Rheoliadau dilynol.

Mae rhagor o wybodaeth am Raglen Llywodraethu Llywodraeth Cymru ar gael yn www.wales.gov.uk/about/programmeforgov/?lang=cy
- Manylion cysylltu** I gael rhagor o wybodaeth:
Nathan Huish
Yr Is-adran Cyflawni a Safonau Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: practicereviewanddevelopment@cymru.gsi.gov.uk
Ffôn: 029 2082 3039

Diogelu data Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Trosolwg o'r cynigion	3
Nodau'r corff cofrestru	4
Swyddogaethau'r corff	6
Strwythur llywodraethu a statws	13
Ffi	15

Cyflwyniad

Mae addysgu a dysgu effeithiol wrth wraidd diwygiadau ym maes addysg yng Nghymru. Mae ansawdd yr ymarferwyr addysgu yn ffactor hollbwysig wrth ddod i benderfyniad ynghylch safon yr addysgu a'r dysgu, ac felly'r canlyniadau o safbwynt y dysgwyr.

Mae'r gweithlu addysg wedi newid yn gyflym yn y deng mlynedd diwethaf. Mae'r opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru diolch i bolisiâu megis Llwybrau Dysgu 14-19 a chydweithio rhwng ysgolion a darparwyr ôl 16 wedi esgor ar gydweithio agosach rhwng ymarferwyr mewn sectorau gwahanol. Gwelwyd cynnydd sydyn hefyd yn nifer y bobl sy'n cynorthwyo ag addysgu a dysgu yn y cyfnod Sylfaen gyda chynorthwywyr cymorth dysgu yn gweithio mewn partneriaeth ag athrawon i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae hyn yn golygu bod strwythur a chyfansoddiad y gweithlu addysg wedi newid yn gyflym yn y blynyddoedd diweddar.

Mae'n hollbwysig fod yr amrywiol ymarferwyr hyn yn cydweithio â'i gilydd yn effeithiol a'u bod yn gallu cael mynediad at gymwysterau, cymorth a datblygiad sydd wedi'u cynllunio'n dda. Mae eu proffesiynoldeb, eu haddasrwydd a safon eu hymddygiad, eu hyfforddiant a'u datblygiad yn allweddol i'w llwyddiant. Rydym am sicrhau ein bod yn cydnabod rôl pawb sy'n cynorthwyo ag addysgu a dysgu fel rhan o un gweithlu addysg cydlynol yng Nghymru.

Un o brif nodweddion llawer o alwedigaethau yw eu bod yn cofrestru â chorff proffesiynol sy'n pennu ac yn cynnal safonau proffesiynol, ac felly yn cadw hyder y cyhoedd. Mae rheoleiddio yn dod â buddion yn ei sgil o ran atebolrwydd, tryloywder a sicrwydd safonau drwy gyfrwng cydgyfrifoldebau'r proffesiwn. Ar hyn o bryd, dim ond athrawon mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Addysgu Cyffredinol. O gofio rôl anhepgor ymarferwyr addysg eraill yng nghyswllt darparu addysg i ddysgwyr yng Nghymru, mae hyn yn ymddangos yn anghyson ac fel pe bai yn tanseilio ein cred bod pawb yn chwarae rhan hollbwysig yn y gweithlu addysg ehangach.

Yn y Rhaglen Llywodraethu gwnaed ymrwymiad i adolygu Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ac felly bu i ni ymgynghori ar egwyddorion bras cofrestru'r gweithlu ehangach rhwng Rhagfyr 2011 a Mawrth 2012.

Y cynigion bras hynny oedd ehangu'r gofyniad cyfredol bod athrawon mewn ysgolion a gynhelir yn cofrestru â chorff proffesiynol i gynnwys eraill yn y gweithlu addysg. Er mwyn cryfhau eu statws proffesiynol a rhoi cydnabyddiaeth lawn i'w rôl hollbwysig yn y gweithlu addysg, y cynnig oedd y dylai staff cymorth dysgu, darlithwyr ym maes addysg bellach a staff dysgu seiliedig ar waith gofrestru â chorff proffesiynol. Roeddem hefyd am gael barn y rhai roeddem yn ymgynghori â nhw ynghylch a ddylai unrhyw staff eraill yn y gweithlu addysg, megis gweithwyr ieuencid, hefyd gofrestru.

Cafwyd naw deg a phedwar o ymatebion i'r ymgynghoriad. Y farn gyffredinol oedd y byddai trefn gofrestru raddol oedd wedi'i chynllunio'n dda yn sicrhau cydymffurfiad â safonau proffesiynol, gan godi statws a phroffil pawb sy'n gweithio ym maes addysg.

Dylai hyn hefyd arwain at well cydraddoldeb rhwng y grwpiau gwahanol o staff addysg ar draws Cymru.

Roedd cytundeb cyffredinol y dylai'r corff gyflawni ei swyddogaeth reoleiddio a disgyblu yn annibynnol ar y Llywodraeth. Gallai weithredu fel porthgeidwad ar gyfer atal a chaniatáu mynediad i'r proffesiwn. Gall corff cofrestru sicrhau bod gan unigolion gymwysterau priodol ar gyfer eu rôl, a rhoi cymorth i'r rheiny sydd heb y cymwysterau priodol i weithio tuag at y cymwysterau hynny. Ond, cododd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch rhai materion ymarferol o ran cofrestru cynorthwywyr addysgu a gweithwyr ieuencid gwirfoddol.

Yng nghyswllt y swyddogaethau ehangach y gallai'r corff cofrestru eu cyflawni, cafodd hyn groeso petrus gan ymatebwyr ar yr amod eu bod yn cael rhagor o fanylion amdano. O safbwynt ffioedd cofrestru, y teimlad oedd y byddai ffioedd gwahanol yn fwy priodol er mwyn adlewyrchu'r graddfeydd cyflog gwahanol oedd yn bodoli ar draws y gweithlu addysg.

Ceir crynodeb byr a chopi o'r ymatebion go iawn yn

<http://wales.gov.uk/consultations/education/regeducationworkforce/?1&lang=cy&status=closed>

Trosolwg o'r cynigion

Ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ar y 19 o Fehefin gwnaeth y Gweinidog ddatganiad yn nodi ei fwriadau, sef:

- y dylai barhau i fod yn ofynnol bod athrawon mewn ysgolion a gynhelir yn cofrestru a bod y corff cofrestru yn parhau i fod â swyddogaeth ddisgyblu;
- y dylai pobl eraill yn y gweithlu addysg hefyd gofrestru ac y dylai'r corff cofrestru hwnnw gael swyddogaethau disgyblu;
- ffurfir y corff cofrestru drwy adeiladu ar brofiad Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a gaiff ei ailenwi a'i ad-drefnu i fod yn gorff cofrestru ar gyfer y gweithlu addysg;
- yn ogystal â'r swyddogaeth ddisgyblu a chofrestru graidd, dros gyfnod o amser byddai gan y corff cofrestru amryw o swyddogaethau cynghori a byddai'n gallu ymgymryd â gwaith oedd yn berthnasol i'r swyddogaethau hyn;
- bydd gan y corff cofrestru hefyd rôl yn y gwaith o hyrwyddo cyfleoedd gyrfa ym maes addysg a rhannu data am y gweithlu yn effeithiol.

Yn yr ymgynghoriad hwn, ein bwriad yw manylu ar swyddogaethau a gweithrediad corff cofrestru a cheisio sylwadau ar fanylion y gweithrediadau, y rolau a'r swyddogaethau er mwyn paratoi ar gyfer rheoleiddio yn y Bil Addysg (Cymru) sydd ar ddod.

Y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yw datblygu system gofrestru gadarn a fydd yn gwella'r gwaith o ddatblygu, hyfforddi a chynllunio'r gweithlu a sicrhau mwy o gysondeb a chydabyddiaeth o ran cyfraniad yr holl weithlu addysg i addysg pob dysgwr yng Nghymru.

Nodau'r corff cofrestru

Nod

Rydym yn cynnig mai swyddogaeth graidd y corff cofrestru fyddai gweithredu er budd y system addysg a'r cyhoedd yng Nghymru drwy gofrestru a phennu addasrwydd ymarferwyr addysg i ymarfer a thrwy hynny gyfrannu at safonau ymarfer uchel a diogelu plant a myfyrwyr.

Cwmpas y cofrestru – pwy gaiff eu cynnwys

Bydd y gofrestr yn parhau i gynnwys athrawon sy'n gweithio mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Yn ogystal rydym yn cynnig y dylai cofrestru hefyd fod yn ofynnol yng nghyswllt y rheiny sy'n gweithio'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc os yw cyflwyno a/neu gynorthwyo â dysgu ac addysgu a/neu ddarparu cyfleoedd datblygu personol, cymdeithasol ac addysgol yn rhan fawr o'u rôl.

Ar hyn o bryd, ni chaiff athrawon ond cofrestru â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru os oes ganddynt gymhwyster addysgu cydnabyddedig. Ond, ar hyn o bryd nid yw'n ofynnol i'r holl grwpiau newydd sydd i'w cynnwys yn y gofrestr fod â chymhwyster penodol neu fodloni safon broffesiynol benodol. Felly byddant yn cael eu cynnwys ar y gofrestr ar sail y rôl maent yn ei chyflawni.

Hoffem ehangu cofrestru i gynnwys grŵp ehangach o ymarferwyr ac rydym yn cynnig bod y grwpiau hynny sydd i'w cynnwys yn y cofrestriad yn cael eu diffinio o bryd i'w gilydd drwy reoleiddio yn sgil ymgynghoriad.

I ddechrau, bwriadwn ehangu'r rhwymedigaeth i gofrestru i'r grwpiau canlynol:

- i. athrawon addysg bellach a staff cymorth dysgu;
- ii. tiwtoriaid dysgu seiliedig ar waith a staff cymorth dysgu;
- iii. athrawon sydd heb gymhwyso a chynorthwywyr dysgu ac addysgu mewn ysgolion;
- iv. gweithwyr ieuenctid.

Byddwn yn cydweithio â rhanddeiliaid a chyrrff cynrychioliadol i sicrhau bod gennym ddiffiniad clir ac ymarferol o'r rolau hyn.

Byddwn yn cadw golwg ar y polisi er mwyn sicrhau bod y broses gofrestru yn parhau i fod yn effeithiol a'i bod yn ategu ein nodau polisi. Ar hyn o bryd nid ydym yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol bod y rheiny sy'n cyflawni rôl ym maes addysg nad yw'n gysylltiedig ag addysgu a dysgu (staff gweinyddol er enghraifft) yn cofrestru â'r corff. Nid ydym chwaith yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i'r rheiny sy'n gweithio fel gwirfoddolwyr gofrestru.

Byddwn yn disgwyl i unigolion ddiweddarau eu gwybodaeth cofrestru bob blwyddyn. Er mwyn lleihau costau, byddwn yn disgwyl i'r corff sefydlu proses gofrestru ar-lein fel rhan o'n nod i leihau biwrocratiaeth.

Enw'r corff

Bydd cwmpas y corff cofrestru newydd yn ehangach na chwmpas y CyngACC presennol. Er mwyn pwysleisio'r cylch gwaith a'r swyddogaethau newydd hyn bwriadwn newid enw'r corff cofrestru i enw sy'n adlewyrchu'r rôl a'r cwmpas cofrestru newydd ehangach hwn.

Sefydlu'r corff cofrestru newydd

Rydym wedi ystyried nifer o opsiynau, ond, o safbwynt rhoi'r corff newydd ar waith cyn gynted â phosibl, effeithlonrwydd o ran gweithredu a gwerth am arian, credwn mai gwell fyddai adeiladu ar yr hyn sy'n bodoli eisoes na chreu sefydliad newydd sbon. Felly bwriadwn gydweithio â CyngACC i ad-drefnu ei drefniadau llywodraethu, ei strwythur a'i swyddogaethau er mwyn bodloni'r agenda newydd uchelgeisiol sydd yn yr arfaeth.

Mewn rhai ymatebion i'r ymgynghoriad, mynegwyd pryder na ddylai ymddangos fel pe bai'r CyngACC wedi "cymryd yr awenau" yng nghyswllt trefniadau ar gyfer staff cymorth ac athrawon yn y sector AB a'r sector Dysgu Seiliedig ar Waith. Rydym yn sicr nad felly y mae, ac rydym yn bwriadu gwneud newidiadau radical i strwythur y cyngor er mwyn sicrhau bod buddiannau pawb sy'n rhan o gwmpas y corff cofrestru yn cael eu cynrychioli'n llawn.

Amseru

Ar ôl sefydlu'r ddeddfwriaeth, caiff y gwaith o gofrestru grwpiau newydd ei wneud yn raddol.

Swyddogaethau'r corff

Swyddogaethau'r Corff – beth fydd y corff yn ei wneud a sut?

Gan ein bod yn bwriadu ehangu'r gofyniad i gofrestru, rydym am sicrhau bod y corff cofrestru a sefydlir gennym yn gwneud mwy na chadw cofrestr yn unig. Yn arbennig, rydym yn awyddus i sicrhau bod corff o'r fath yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a'r cyflogwyr a'r grwpiau proffesiynol perthnasol i gyflenwi gweithlu o safon uchel i ymgysylltu â'n dysgwyr yng Nghymru.

Swyddogaethau cyfredol CyngACC

Isod rhestrir prif nodau a chylch gwaith statudol CyngACC fel y'i nodwyd yn Neddf 1998, sef:

- cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd y dysgu, a
- cynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymysg athrawon er budd y cyhoedd.

Mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) yn gyfrifol am:

- sefydlu a chynnal Cofrestr o Athrawon Cymwysedig yng Nghymru;
- darparu Cod Proffesiynol ar gyfer athrawon cofrestredig;
- cyflawni swyddogaethau disgyblu yng nghyswllt athrawon a gyhuddir o anghymhwysra a chamymddwyn proffesiynol difrifol;
- cynghori Llywodraeth Cymru a chyrrff dynodedig eraill ynghylch:
 - safonau addysgu
 - safonau ymddygiad i athrawon
 - rôl y proffesiwn addysgu
 - hyfforddi, datblygu gyrfa a rheoli perfformiad athrawon
 - recriwtio i'r proffesiwn addysgu
 - cyflenwi athrawon
 - cadw athrawon yn y proffesiwn
 - statws y proffesiwn addysgu
 - ffitrwydd meddygol ar gyfer addysgu

ac, ar gais Llywodraeth Cymru, cyngor ar unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud ag addysgu.

Ar gais Llywodraeth Cymru, mae CyngACC hefyd yn gallu ymgymryd â gweithgareddau i hyrwyddo recriwtio i'r proffesiwn addysgu a datblygiad proffesiynol parhaus athrawon.

Felly bwriadwn sefydlu'r corff cofrestru â'r un swyddogaethau craidd ond gyda rhai newidiadau i'r ffordd maent yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd, gan adeiladu ar brofiad CyngACC o gyflawni'r swyddogaethau hyn a sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn well â'r cwrpas cofrestru newydd ehangach. Mae ein cynigion hefyd yn cynnwys rhai swyddogaethau ychwanegol ar gyfer y corff.

Yn eu plith mae:

- cadw cofrestr o ymarferwyr yng Nghymru;
- cyhoeddi Cod Ymarfer yn nodi'r safonau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol a ddisgwylir gan ymarferwyr cofrestredig;
- ymchwilio, clywed a phenderfynu ar achosion addasrwydd i ymarfer yng nghyswllt ymarferwyr cofrestredig;
- gwneud gorchmynion disgyblu a chofrestru amodol;
- gwneud gorchmynion atal a gwahardd.

Cynnig cyngor ar nifer o faterion ac ymgymryd â gwaith sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau hyn. Rydym yn cynnig y dylai'r cyngor a'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r maes hwn ymwneud â:

- safonau addysgu;
- safonau ymddygiad;
- statws a bri'r gweithlu addysg;
- safonau proffesiynol;
- hyfforddiant cychwynol a datblygiad proffesiynol parhaus, gan gynnwys pennu gofynion ac achredu cyrsiau proffesiynol perthnasol.

Rydym yn bwriadu newid y ffordd y cyflawnir rhai o'r swyddogaethau hyn gan y corff cofrestru ac rydym yn manylu ar y newidiadau hyn yn yr adrannau sy'n dilyn.

Cofrestru a defnyddio'r wybodaeth a gesglir

Bydd angen i'r corff cofrestru gasglu amrywiaeth o ddata am yr ymarferwyr unigol, eu swydd a'u gweithleoedd er mwyn rhoi ei broses cofrestru ar waith. Rydym yn cynnig bod y corff cofrestru yn ehangu'r data a gesglir gan unigolion fel bod modd ei ddefnyddio i gynorthwyo â chynllunio a datblygu'r gweithlu.

Mae'r dull casglu data presennol yng nghyswllt ymarferwyr mewn lleoliadau addysgol yn dameidiog, yn anghyson ac wedi'i ddyblygu. Cesglir data Llywodraeth Cymru ar lefel sefydliadau cyfun ac felly mae'r posibiladau o ran ei ddadansoddi yn gyfyngedig. Nid yw data am staff yn y sector ôl-16 mewn sefydliadau nad ydynt yn ysgolion ar lefel fanwl, unigol yn cael ei gasglu'n ganolog bellach. Yn hanesyddol, nid yw data am staff ym maes dysgu seiliedig ar waith wedi bod yn cael ei gasglu. Mae rhywfaint o gasglu data wedi bod yng nghyswllt gweithwyr ieuencid.

Rydym yn cynnig bod y gofrestr yn cael ei ehangu i gasglu ystod o wybodaeth ehangach am y gweithlu, megis y sgiliau a'r cymwysterau proffesiynol a chymwysterau eraill sydd gan unigolion, megis y gallu i siarad Cymraeg ac i weithio trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Bydd hyn yn darparu ffynhonnell werthfawr o ddata am y gweithlu sy'n golygu y gallwn ddechrau dadansoddi ac asesu anghenion hyfforddi a datblygu holl aelodau'r gweithlu addysg. Yn ogystal, bydd hyn yn hwyluso'r gwaith o lunio fframweithiau datblygu proffesiynol seiliedig ar dystiolaeth er mwyn creu gweithlu mwy cydlynol, ac yn ein galluogi i ystyried, dros gyfnod o amser, a oes angen llunio cymwysterau a safonau sylfaenol ar gyfer grwpiau proffesiynol gwahanol.

Yn amodol ar y ddarpariaeth statudol sy'n berthnasol i ddiogelu data, y bwriad yw rhannu'r data a'r dadansoddiadau â'r llywodraeth a chyflogwyr i helpu gyda'r gwaith o gynllunio a datblygu'r gweithlu. Mae hefyd yn ddull effeithiol o sicrhau bod unigolion yn meddu ar yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cyfleoedd hyfforddi a datblygu a'r gwaith ymchwil cyfredol mewn meysydd ymarfer allweddol.

Mae'n bosibl hefyd y gellid cael gwell trefn ar y data a gesglir o ffynonellau eraill a allai leihau biwrocratiaeth. Byddai hefyd yn fwy cost effeithiol ac effeithlon. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod yr unigolion sy'n rhoi'r wybodaeth yn gwybod yn union sut y caiff yr wybodaeth hon ei rhannu cyn ei chasglu.

Gofynion disgyblu

Yn yr ymgyngoriad blaenorol roedd cefnogaeth gyffredinol i'r swyddogaeth ddisgyblu fod yn rhan o rôl y corff cofrestru ac y dylid cyflawni'r rôl honno yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Mae'r broses ddisgyblu yn elfen bwysig o'r gofyniad i gofrestru ac yn cryfhau hyder y cyhoedd yn y proffesiwn addysg. Mae hefyd yn sicrhau bod unigolion yn cynnal safonau ymddygiad proffesiynol sylfaenol.

Ar hyn o bryd, mae'r corff cofrestru ar gyfer athrawon, sef Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, yn cyflawni ei swyddogaethau disgyblu yn unol ag y maent wedi'u nodi yn Neddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Disgwylir iddo ymchwilio i achosion sy'n ymwneud ag ymddygiad proffesiynol, anghymhwystra proffesiynol difrifol a/neu lle mae athro wedi cael ei euogfarnu o drosedd perthnasol. Mae profiad wedi dangos nad yw achosion yn aml yn cyfateb yn dwt i un o'r tri grŵp gyda'r honiadau mewn rhai achosion yn rhychwantu nifer o ddiffiniadau.

Fodd bynnag, ein bwriad yng nghyswllt y corff newydd yw iddo gynnal ymchwiliadau a gwrandawriadau sy'n ymwneud â gallu unigolyn o ran ei "addasrwydd i ymarfer". Rydym yn cynnig hyn oherwydd nad yw tŷn y geiriad mor gosbol ac oherwydd ei fod yn egluro cyfrifoldeb cyfreithiol y corff i gynnal a gwella safonau ymddygiad ac ymarfer er budd y cyhoedd yn well. Mae'r mwyafrif o reoleiddwyr proffesiynol eraill yn defnyddio'r term "addasrwydd i ymarfer" neu rywbeth tebyg erbyn hyn.

Fel sy'n digwydd mewn ysgolion a gynhelir ar hyn o bryd, byddai'r prosesau addasrwydd i ymarfer yn cynnwys y gofyniad ei bod yn ddyletswydd ar gyflogwyr i roi gwybod i'r corff cofrestru am unrhyw ymddygiad ar ran unigolyn y gellid ei ystyried yn enghraifft o dorri'r cod ymddygiad ac sy'n bwrw amheuaeth ar ei addasrwydd i

ymarfer. Ni fyddai'r gofyniad hwn yn disodli unrhyw bolisiâu cyflogaeth eraill sydd gan y sefydliad neu sydd wedi'u nodi mewn deddfwriaeth.

Yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, roedd nifer o ymatebwyr yn dadlau mai aelodau o'r proffesiwn ddylai gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor disgyblu ac nid aelodau lleyg annibynnol. Ond, er mwyn sicrhau cysondeb a chadw hyder y cyhoedd, dylid dewis aelod lleyg fel Cadeirydd ym mhob gwrandawriad addasrwydd i ymarfer. Byddai aelodau eraill y panel yn cynnwys rhywun o'r proffesiwn ac un arall. Yn sgil dyfarniad diweddar yn yr Uchel Lys byddem hefyd yn sicrhau na fyddai unrhyw aelod o'r cyngor na'i bwyllgor cynghori yn rhan o'r panel addasrwydd i ymarfer er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau yng nghyswllt y rôl.

Mae peth pryder wedi bod o ran y ffaith bod y trefniadau cyfredol yn defnyddio un broses ddisgyblu unigol sy'n arwain at wrandawriad cyhoeddus llawn, waeth beth fo maint yr honiadau am yr unigolyn a'i ymateb i'r honiadau. Rydym yn ystyried cyflwyno dull mwy hyblyg yng nghyswllt gwrandawriadau addasrwydd i ymarfer, gan sicrhau ar yr un pryd bod y cyhoedd yn parhau i fod â hyder yn y gwrandawriadau hynny a'u bod yn deg i'r unigolyn.

Gyda'r cynnydd yn nifer y proffesiynau mae angen i ni sicrhau bod unrhyw system yn deg, yn gyfiawn, yn bodloni'r gyfraith ac yn gallu cyflawni'r gwaith hwn mewn modd amserol (gan ystyried unrhyw faterion cyfreithiol megis tribiwnlysoedd cyflogaeth a allai godi). Er y bydd angen llunio canllawiau penodol, rydym yn ystyried a fyddai'r broses a nodir isod yn fwy priodol.

Cam 1

Bydd swyddogion achos yn ystyried y gŵyn a wnaed (bydd un swyddog achos yn unigolyn lleyg sy'n annibynnol ar y corff cofrestru). Byddant yn cael cyfle i ystyried holl ffeithiau'r achos ac yn rhoi un o'r camau isod ar waith:

- dirwyn yr achos i ben heb gymryd unrhyw gamau pellach
- caniatáu i'r unigolyn dderbyn rhybudd
- cyfeirio'r achos at sylw gwrandawriad disgyblu llawn
- cytuno ar ymrwymadau¹ gyda'r unigolyn proffesiynol dan sylw.

Cam 2

Gwrandawriad disgyblu llawn

Os bydd y swyddogion achos yn penderfynu bod achos i'w ateb yna cynhelir gwrandawriad disgyblu ffurfiol a fydd i raddau helaeth yn efelychu'r broses a roddir ar waith gan CyngACC ar hyn o bryd.

¹ pan fo'r corff a'r unigolyn proffesiynol yn cytuno bod yr unigolyn proffesiynol wedi torri'r safonau ond, gyda rhyw fath o gamau datblygu, megis ailhyfforddi, goruchwyliaeth neu rhyw fath arall o ddatblygiad proffesiynol, mae pethau'n debygol o wella o ran bodloni'r safonau.

Sefydlu cod ymddygiad

Mae cod ymddygiad proffesiynol ar waith yng nghyswllt rhai o'r grwpiau proffesiynol ar hyn o bryd. Rydym yn cynnig y dylai'r corff cofrestru lunio un cod ymddygiad sengl a fyddai'n berthnasol i bawb sydd wedi cofrestru. Gallai hwn ganolbwyntio ar feysydd megis ymddygiad proffesiynol, cyfrifoldebau tuag at blant a phobl ifanc, cyfrifoldebau tuag at gydweithwyr a chyflogwyr a datblygiad proffesiynol. Byddai un cod ymddygiad cyffredin yn golygu y gellid ystyried penderfyniadau ynghylch addasrwydd i ymarfer mewn modd cyson ar draws grwpiau cofrestredig, er y byddai rôl a lleoliad gwaith yr unigolyn yn pennu'r cyd-destun y mae'r cod yn berthnasol iddo.

Er mwyn sicrhau bod y cod ymddygiad yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol, ein bwriad yw ei gwneud yn ofynnol bod y corff cofrestru yn ymgynghori â phob aelod cofrestredig bob pum mlynedd i weld os oes angen newid y cod.

Cyflawni swyddogaethau gweinyddol perthnasol

Ar hyn o bryd, mae CyngACC yn cyflawni nifer o swyddogaethau gweinyddol ar ran Llywodraeth Cymru lle mae defnyddio'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y gronfa ddata cofrestru neu brofiad CyngACC yn symleiddio'r broses ac yn ei gwneud yn weinyddol effeithiol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys rhoi tystysgrifau SAC a gwrando ar apeliadau ynghylch y broses sefydlu. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth grant ar gyfer y gweithgareddau hyn.

Ein bwriad yw rhoi'r pŵer i'r corff cofrestru newydd gyflawni swyddogaethau gweinyddol o'r fath gyda chymorth grant gan Lywodraeth Cymru lle bo hynny'n cynnig y gwerth gorau o ran arian y sector cyhoeddus.

Swyddogaethau cynghori a gwaith cysylltiedig

Gall CyngACC hefyd ddefnyddio profiad eu cyngor a'r rhai maent yn eu cofrestru i gynnig cyngor ar amryw o faterion sy'n berthnasol i addysgu. Byddai corff cofrestru proffesiynol credadwy ac effeithiol mewn sefyllfa dda i gynghori'r llywodraeth a rhanddeiliaid eraill ar faterion oedd yn wynebu eu sector yn ogystal â chyflawni nifer o swyddogaethau ar eu rhan.

Rydym yn bwriadu ymestyn y swyddogaeth gynghori hon ar faterion penodol i'r corff cofrestru newydd yn ogystal â galluogi'r corff cofrestru i ymgymryd â gwaith sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau hyn. Rydym yn cynnig y dylai'r cyngor a'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r maes hwn ymwneud â:

- safonau addysgu;
- safonau ymddygiad;
- statws a bri'r gweithlu addysg;
- safonau proffesiynol;
- hyfforddiant cychwynnol a datblygiad proffesiynol parhaus, gan gynnwys pennu gofynion ac achredu cyrsiau proffesiynol perthnasol;

- fframweithiau datblygiad proffesiynol a llwybrau gyrfa;
- recriwtio a chadw staff;
- hyrwyddo gyrfa ym maes addysg;
- cynllunio'r gweithlu;
- unrhyw faterion cyffredinol eraill sy'n berthnasol i'r rhai a gofrestrir.

Ond rydym yn argyhoeddedig mai'r swyddogaethau craidd o gofrestru a chynnal safonau yn erbyn y cod ymddygiad yw prif rôl y corff cofrestru. Felly rydym yn bwriadu cynnwys pwerau galluogi yn y ddeddfwriaeth sylfaenol ond bydd y rhain yn dod i rym dros gyfnod o amser wrth i'r gofrestr ennill ei phlwyf.

Achredu a rhoi cymeradwyaeth broffesiynol i gymwysterau

Rydym yn cynnig bod y corff cofrestru yn ymgymryd â swyddogaeth gynghori a gwaith perthnasol i'r materion hyn, gan weithio ochr yn ochr â chyrrff eraill sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd y ddarpariaeth datblygiad proffesiynol.

Nid yw CyngAAC yn ei wedd bresennol yn cyflawni'r swyddogaeth hon ond mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod datblygiad a hyfforddiant cychwynnol ein gweithlu o'r safon uchaf. Rydym yn sylweddoli y gall achredu/rhoi cymeradwyaeth broffesiynol ddod â buddion yn ei sgil o ran sicrhau bod cyrsiau yn berthnasol i gyflogwyr a bod y gweithlu yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i'w cynorthwyo yn eu rolau newydd ac yng nghyswllt eu datblygiad parhaus.

Mae ystod o drefniadau eisoes ar waith i sicrhau ansawdd yr hyfforddiant a ddarperir ar gyfer y gweithlu addysg;. Sefydlwyd deddfwriaeth eisoes yng nghyswllt achrediad ar gyfer hyfforddiant addysgu cychwynnol sy'n arwain at statws athro cymwysedig (SAC) gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Yn yr ymgynghoriad presennol ynghylch y Papur Gwyn ar y Bil Addysg Bellach ac Addysg Uwch (Cymru), mae cynigion i atgyfnerthu sicrwydd ansawdd ac i wella'r ddarpariaeth Addysg Uwch. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gwneud yn ddyletswydd ar Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i wella ansawdd yr addysg a ddarperir gan sefydliadau. Disgwylir i CCAUC ddatblygu'r manylion o ran sut y gweithredir y prosesau sicrhau a gwella ansawdd ar y cyd â'r sector a rhanddeiliaid priodol.

O ran rhoi cymeradwyaeth broffesiynol, mae pwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant (Cymru) yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch rhoi cymeradwyaeth a chydnabyddiaeth broffesiynol i raglenni ym maes gwaith ieuenctid.

Ceir enghreifftiau mewn meysydd polisi eraill hefyd sy'n ymwneud â datblygu'r gweithlu lle mae Llywodraeth Cymru wedi pennu proses ar gyfer sicrhau y caiff safonau eu bodloni. Mae Adran 63 Deddf Safonau Gofal 2000 yn rhoi'r pŵer i Gyngor Gofal Cymru roi sêl bendith i gyrsiau ar gyfer pobl sydd am fod yn weithwyr cymdeithasol.

Mae hyn i gyd yn ychwanegol at y rôl bwysig mae Estyn yn ei chyflawni gyda'i bwerau yn y meysydd hyn.

Serch hynny, mae rhai meysydd gweithgaredd yn bodoli o hyd, gan gynnwys hyfforddiant a ddarperir ar gyfer cynorthwyrwyr addysgu a dysgu, lle nad oes prosesau tebyg ar waith ar gyfer achredu a rhoi cymeradwyaeth. Felly rydym yn bwriadu rhoi'r pŵer i'r corff cofrestru ymgymryd â'r swyddogaethau achredu hyn mewn achosion o'r fath.

Strwythur Llywodraethu a statws

I ba raddau y mae'r corff cofrestru yn annibynnol

Sefydlwyd CyngACC yn 2000 fel corff corfforaethol annibynnol ac, yn Neddf 2002, cymerwyd camau i atgyfnerthu ei annibyniaeth drwy ddileu'r gofyniad i gael caniatâd Gweinidogol yng nghyswllt materion ariannol a chytundebol, gan gynnwys taliadau.

Mae Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban (GTC Scotland) yn gwbl annibynnol ar y llywodraeth ac mae Cynulliad Gogledd Iwerddon wedi dweud ei fod yn bwriadu cyflwyno Bil yn cynnig bod GTCNI hefyd yn dod yn gwbl annibynnol ar y llywodraeth.

Yng Nghymru, rydym wedi penderfynu ehangu cwmpas y cofrestru i'r gweithlu addysg ehangach ac i alluogi'r corff cofrestru i gyflawni nifer o swyddogaethau gweithredol a chynghori mewn perthynas â'r gweithlu addysg hwn. Felly, nid ydym yn bwriadu lleihau pwerau cyfredol y llywodraeth dros rai agweddau ar weithrediad y corff cofrestru. Mae'r rhain yn cynnwys cyfansoddiad y corff drwy reoleiddio, a rhoi fetu ar gynyddu'r ffioedd a bennir gan y corff.

Byddwn yn ailystyried lefel annibyniaeth y corff cofrestru mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid pan fydd y corff yn gwbl weithredol.

Strwythur Llywodraethu

Bwriadwn gadw'r pŵer sydd gan Weinidogion Cymru i bennu cyfansoddiad corff cofrestru drwy reoliadau. Rydym yn bwriadu newid strwythur llywodraethu'r corff cofrestru er mwyn sicrhau bod barn pob un o'r grwpiau sydd wedi cofrestru yn cael ei gynrychioli'n llawn yn ei broses gwneud penderfyniadau.

Mae'n bwysig fod gan y corff cofrestru strwythur llywodraethu priodol i sicrhau ei fod yn cael ei reoli mewn modd cyfrifol ac effeithiol, yn enwedig yng nghyswllt ei atebolrwydd gweithredol ac ariannol. Rydym yn cynnig y dylai'r trefniadau llywodraethu gynnwys cyngor bychan, lle mae'r aelodau yn gallu gweithredu fel unigolion a defnyddio profiad o amrywiaeth o sectorau, profiadau a chyd-destunau wrth ymgymryd â chyfrifoldebau'r cyngor. Felly bwriadwn ddefnyddio egwyddorion a phrosesau penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru wrth benodi'r cyngor er mwyn sicrhau cydbwysedd o ran profiadau, sgiliau a galluoedd strategol sy'n gweddu i swyddogaethau'r cyngor. Bwriadwn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor gael Pwyllgor Archwilio a Chraffu Sefydlog i gynnig sicrwydd priodol ynghylch llywodraethu a rheolaeth ariannol y corff cofrestru.

Byddai ystod o baneli cynghori yn adlewyrchu nifer o fuddiannau a phrofiadau'r gwahanol grwpiau cofrestredig yn cynghori'r cyngor. Rydym yn cynnig bod aelodau'r cyngor o'r sector perthnasol yn cadeirio'r grŵp cynghori er mwyn sicrhau bod barn y sectorau gwahanol yn cael ei ystyried ym mhenderfyniadau'r cyngor.

Rydym yn cynnig bod ystod o randdeiliaid a sefydliadau penodol, sy'n ddigon mawr i gynrychioli barn y grwpiau cofrestredig heb fod yn anhylaw, yn enwebu aelodau ar gyfer y paneli cynghori. Rydym yn argymhell y dylai'r grwpiau hyn gynnwys rhwng 15-20 aelod.

Ffi

Yn ein hymgyngoriad diwethaf, fel sy'n digwydd yng nghyswllt proffesiynau eraill, cynigiwyd y dylai'r rhai y mae'n ofynnol arnynt i gofrestru â'r corff cofrestru dalu ffi. Dylai'r ffi hon fod yn ddigon i dalu am gost y cofrestru a'r swyddogaeth ddisgyblu. Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, awgrymwyd y dylai'r swyddogaeth ddisgyblu a chofrestru gael ei chyflawni yn annibynnol ar y llywodraeth ac y dylid cael ffioedd gwahanol er mwyn cydnabod y gwahaniaeth mewn taliadau sy'n bodoli rhwng amrywiol aelodau'r gweithlu addysg.

Bydd angen pennu gwir lefelau'r ffioedd ar sail y gost o roi'r corff cofrestru newydd ar waith. Felly, hyd nes y pennir y swyddogaethau yn fanwl, nid oes modd dweud yn union beth fydd lefelau'r ffioedd. Fodd bynnag, gofynnodd nifer o ymatebwyr am ryw syniad o'r ffioedd fel sail ar gyfer mynegi eu barn ynghylch y corff cofrestru.

Gallwn roi awgrym cynnar o lefelau'r ffioedd ar sail y dybiaeth y byddai'r corff cofrestru yn cyflawni swyddogaethau tebyg i'r rhai a gyflawnir gan CyngACC fel y mae ar hyn o bryd ac y byddai nifer yr unigolion a fyddai wedi cofrestru tua 65,000.

Byddai hyn yn golygu ffioedd tebyg i'r isod:

	<u>Ffi</u>
<u>Athrawon</u>	<u>£30</u>
<u>Darlithwyr AB</u>	<u>£30</u>
<u>Hyfforddwyr a CALU</u>	<u>£25</u>
<u>Staff cymorth mewn ysgolion</u>	<u>£15</u>
<u>Staff dysgu seiliedig ar waith</u>	<u>£20</u>
<u>Gweithwyr ieuentid</u>	<u>£30</u>

Ar hyn o bryd, tybir y byddai disgwyl i'r unigolyn sy'n cofrestru dalu'r ffi ac y byddai ei gyflogwr yn casglu'r ffi honno o'i gyflog. Yn ôl y rheolau presennol, mae modd cael gostyngiad treth ar ffioedd proffesiynol.

Y bwriad yw y byddai swyddogaethau a gyflawnir ar ran y proffesiwn er mwyn gwella ei statws a'i gredadwyedd - cyngor ar bolisi ar ran y proffesiwn neu bennu safonau a chysiau achredu er enghraifft - yn cael eu cyllido drwy'r incwm o'r ffioedd. Felly, gallai penderfyniadau sy'n deillio o'r ymgynghoriad hwn ynghylch swyddogaeth y corff cofrestru gael effaith ar y ffioedd.

Er bod angen gwneud mwy o waith ar y ffioedd sydd i'w codi, barn yr ymgynghoriad oedd y dylai'r corff bennu ffioedd gwahanol mewn ymateb i lefelau cyflog y rhai fyddai'n gorfod cofrestru. Bydd Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau drwy ddeddfwriaeth bod model ffioedd o'r fath yn deg ac yn gyfiawn o safbwynt y gweithlu.

Dull arall y gellid ei ddefnyddio yn hytrach na'r strwythur ffioedd fyddai pennu'r ffioedd yn ôl bandiau incwm. Er enghraifft, y rheiny sy'n ennill llai na £10,000, llai na £15,000 ayyb. Byddai dull o'r fath yn dangos mwy o sensitifrwydd i'r ffaith bod rhai pobl yn gweithio rhan amser a bod swyddi tebyg mewn rhai sectorau yn denu cyflog gwahanol.